



Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau

# CHEME

Centre for Health Economics and Medicines Evaluation

Yr Athro Rhiannon Tudor Edwards  
Dr Llinos Haf Spencer  
Bethany Fern Anthony  
Lucy Bryning

## Lles mewn gwaith:

Y dadleuon economaidd dros  
fuddsoddi mewn iechyd a lles y  
gweithlu yng Nghymru



### Ariannwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Sefydliad GIG yw Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n darparu cyngor a gwasanaethau iechyd cyhoeddus annibynnol yn broffesiynol i amddiffyn a gwella iechyd a lles poblogaeth Cymru. Ariannwyd cynhyrchu'r adroddiad hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, barn yr awduron sydd yma ac ni ddylid tybio eu bod yr un fath â barn Iechyd Cyhoeddus Cymru.



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

# Adroddiad Iles mewn gwaith


Mae'r adroddiad Iles mewn gwaith hwn yn cyflwyno dadleuon economaidd dros fuddsoddi mewn iechyd a lles gweithluoedd Cymru.

Mae gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) nod sef cael economi sy'n creu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd gwaith, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gaiff ei gynhyrchu trwy ddiogelu gwaith addas.


Yn dilyn trafodaethau gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, rydym wedi canolbwyntio ein sylw ar y canlynol:

1. Gweithlu amrywiol a chynhwysol yng Nghymru;
2. Gwerthfawrogi gweithwyr, a chadw'n iach ar gyfer gweithlu cost-effeithiol;
3. Diweithdra a dychwelyd i'r gwaith.

## Nodau Iles



# Cyfraddau cyflogaeth a diweithdra yng Nghymru



Mae 1.5 million o bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru (NOMIS Official Labour Market Statistics, 2018).



Mae 14.3% o'r cyflogedig yn hunan gyflogedig (StatsWales, 2018).



Mae 67.2% o bobl hŷn rhwng 50 a 64 oed mewn cyflogaeth (Department for Work and Pensions, 2015).

# Mae cyfraddau absenoldeb salwch yng Nghymru yn uwch na chyfartaledd y DU



Mae cadw pobl yn iach ac mewn gwaith yn atal colli cynhyrchiant ac o fudd i economi Cymru. Bydd delio â materion iechyd y gellir eu hatal, ymddygiadau afiach a lleihau'r risg o anafiadau yn lleihau marwolaethau cynamserol ac yn cadw llawer o bobl sy'n ac sydd eisiau gweithio mewn cyflogaeth yn hirach.




Cyfraddau absenoldeb salwch yn 2017: **2.7%** (Cymru) **1.9%** (DU)

# Mae'r Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol (NHS) yn gyflogwr mawr yng Nghymru

Mae anweithgarwch corfforol yn arwain at absenoldeb salwch yn costio £314miliwn y flwyddyn i economi Cymru. Gall hyrwyddo gweithgaredd corfforol mewn gweithleoedd gynyddu cyfranogiad gweithgaredd corfforol ar gost o £4.11 y pen.



**£4.11** y pen



Gall fod yn gost-effeithiol targedu gweithwyr sydd mewn perygl er mwyn lleihau absenoldeb salwch, er enghraifft trwy gynnig brechiad fflw i bobl sy'n gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.



Gall ymyriadau ioga fod yn gost-effeithiol o ran lleihau absenoldeb oherwydd anhwylderau cyhyrsgerbydol sy'n cyfrif am 25% o absenoldeb salwch yn y GIG yng Nghymru. Am bob £1 sy'n cael ei wario ar ioga amcangyfrifir bod budd cymdeithasol o £10.17 yn cael ei gynhyrchu yn bennaf oherwydd cynnydd mewn cynhyrchiant yn y gwaith.



# O gyflogaeth o ansawdd da i ddiweithdra

## Cyflogaeth o ansawdd da

Sgiliau a hyfforddiant

Cyd-gynhyrchu

Cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

Cynhyrchedd

Cynhwysiant economaidd

Ymreolaeth

Contractau cynaliadwy

Cyflog teg / cyflogau uwch



**Lles  
mewn  
gwaith**

## Diweithdra

Absenoldeb

Presenoldeb

Amgylchedd / triniaeth niweidiol

Cyflogau isel

Prinder sgiliau

Cytundebau oriau heb eu gwarantu

Amddifadedd

Gwaith shifft / oriau hir



## **Mae diweithdra yn gysylltiedig â:**

- **Risg uwch o 20-25% o farwolaeth yn y degawd yn dilyn colli swydd (e.e. oherwydd risg uwch o glefyd y galon, strôc neu hunanladdiad),**
- **Cynnydd mewn caledi ariannol,**
- **Mwy o broblemau iechyd meddwl.**


# Diweithdra a dychwelyd i'r gwaith



**Ffynhonnell:** Seilir yr amcangyfrifon £10 ar y GVA i Gymru gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2018) ac fe ragori arnynt gan amcangyfrifon Public Health England (2016) 19,80 Defnyddir amcan £24K gan ddefnyddio 'Movement into employment: return on investment tool' Public Health England (2017) gan ystyried chwyddiant o 2016 i 2017 gan ddefnyddio Gogledd-dwyrain Lloegr fel cymharydd rhanbarthol a Chymru sy'n ffitio orau (Public Health England, 2017).



# Mae ymddygiadau afiach yn costio miliynau o bunnoedd y flwyddyn i Lywodraeth Cymru



Gall ymddygiadau afiach fel cam-drin cyffuriau neu alcohol gael effaith mawr ar gyflogaeth gan gynnwys cynyddu'r risg o ddiweithdra ac absenoldeb o'r gwaith.

Amcangyfrifir y bydd effaith camddefnyddio alcohol yn costio £500miliwn o ran colledion cynhyrchedd yng Nghymru (Knapp, et al, 2011, Institute of Alcohol Studies, 2014, 2017).

Mae seibiannau ysmegu (yn ychwanegol at seibiannau gorffwys safonol) yn costio £2K bob blwyddyn i weithiwr llawn amser (CEBR, 2014).



Mae gamblo yn costio rhwng £2filiwn ac £8miliwn i Lywodraeth Cymru o ran refeniw treth a gollir oherwydd absenoldeb salwch, presenoldeb a diweithdra (Thorley et al., 2016).



# Problemau ac ymyriadau iechyd meddwl



## Mae 1 o bob 6


gweithiwr yng Nghymru yn dioddef o broblem iechyd meddwl. Amcangyfrifir mai y gost economaidd flynyddol yw £4.68biliwn oherwydd problemau iechyd meddwl yn y gwaith.



Gall ymyriadau iechyd meddwl yn y gweithle gynnig enillion cadarnhaol ar fuddsoddiad gyda hyd at £9 yn cael ei gynhyrchu am bob £1 sy'n cael ei wario (Kigozi et al, 2017; Farmer a Stevenson, 2017; Deloitte UK, 2017).



# Cefnogi gweithwyr i ffynnu yn y gwaith




Ffynhonnell: Thriving at work framework (wedi ei addasu o Farmer a Stevenson, 2017).

# Gall gweithlu amrywiol a chynhwysol roi hwb economi Cymru

Yng Nghymru mae 45.8% o bobl ag anableddau mewn cyflogaeth. Mae strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru yn cefnogi pobl ag anableddau i aros mewn gwaith, dychwelyd i'r gwaith neu cael mynediad i waith cyn gynted â phosib.

Mae gan bobl ifanc anghenion amrywiol. Gall ymyriadau i atal pobl ifanc rhag dod yn NEET (Ddim mewn Addysg Cyflogaeth na Hyfforddiant) arbed £522miliwn i'r economi.




Gall pobl hŷn mewn cyflogaeth gadw'n iach, ennill mwy o arian, a thalu mwy o dreth i'r Llywodraeth yn ogystal â themlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

# Mae menywod yn gwneud cyfraniad enfawr i economi Cymru trwy weithio a thrwy ofal di-dâl




**Mae 1 o bob 20**



o ferched yn cwblhau hanner can awr neu fwy o waith gofal di-dâl bob wythnos. Gwerth economaidd gofal di-dâl gan fenywod yng Nghymru yw £3.8biliwn allan o'r £8.6biliwn y flwyddyn ar gyfer bob gofalwr di-dâl.

# Trethi a gwariant trwy'r cwrs bywyd



Trethi a gwariant y pen yn y Deyrnas Unedig trwy hyd y cwrs bywyd - y blynyddoedd gwaith. Ffynhonnell: Office for Budget Responsibility (2018)

- Yn y DU, mae'r rhan fwyaf o oedolion yn talu trethi trwy gydol eu blynyddoedd gwaith.
- Mae'r ffigur hwn yn dangos trethiant a gwariant trwy'r cwrs bywyd ac yn tynnu sylw at y ffaith bod trethi'n cyrraedd uchafbwynt tua 46 oed ac yna'n gostwng i lefel is o hynny ymlaen.
- Ar y pwynt hwn hefyd mae gwariant y llywodraeth yn dechrau cynyddu gydag oedran.

## Am fwy o wybodaeth:

Mae crynodeb ffeithluniau a fersiwn lawn o'r adroddiad "Lles mewn gwaith: Y dadleuon economaidd dros fuddsoddi mewn iechyd a lles y gweithlu yng Nghymru" ar gael i'w lawrlwytho yn:

<https://cheme.bangor.ac.uk/reportspublications.php.cy>

Gweler yr adroddiad am gyfeiriadau llawn.

Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME) Prifysgol Bangor, Neuadd Ardudwy, Safle'r Normal, Gwynedd, LL57 2PZ



E-bost [cheme@bangor.ac.uk](mailto:cheme@bangor.ac.uk)



@CHEMEBangor

### Ariannwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru

Sefydliad GIG yw Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n darparu cyngor a gwasanaethau iechyd cyhoeddus annibynnol yn broffesiynol i amddiffyn a gwella iechyd a lles poblogaeth Cymru. Ariannwyd cynhyrchu'r adroddiad hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, barn yr awduron sydd yma ac ni ddylid tybio eu bod yr un fath â barn Iechyd Cyhoeddus Cymru.



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY